Ffocws ar Saesneg

CYFRES YR HAF 2018

Mae TGAU Saesneg Iaith yn gymhwyster llinol nad yw'n haenog. Mae hyn yn golygu bod angen sefyll yr holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs a bydd pob myfyriwr yn sefyll yr un papur arholiad, beth bynnag yw'r radd y mae'n anelu ati.

Mae TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn gymhwyster haenog, unedol. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sefyll arholiadau ar gyfer unedau unigol yn ystod y cwrs a chofrestru i sefyll naill ai bapur haen sylfaen neu bapur haen uwch, gan ddibynnu ar y radd y maent yn anelu ati.

Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Yr haf hwn, mae newid mawr yn y patrwm cofrestru ar gyfer y ddau gymhwyster hyn o gymharu â haf 2017. Y newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion yw'r rheswm dros hyn. O haf 2019, bydd y canlyniad gorau o gynnig cyntaf myfyriwr ar gyfer naill ai TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion.

Ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, mae nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 sydd wedi cael eu cofrestru wedi lleihau'n sylweddol (96%). Mae nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cael eu cofrestru wedi lleihau hefyd (34%) gan y bydd rhai ohonynt wedi sefyll yr arholiadau yn ystod haf 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 10) ac ym mis Tachwedd 2017. Felly, dim ond cyfran fydd yn dychwelyd yr haf hwn gyda'r gobaith o wella eu graddau. Bydd myfyrwyr hefyd yn sefyll arholiadau'r pwnc am y tro cyntaf yr haf hwn.

Ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg, mae'r darlun yn fwy cymhleth. Mae tua 60% o fyfyrwyr Blwyddyn 11 yng Nghymru wedi cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster yr haf hwn. Fodd bynnag, cafodd rhai o'r myfyrwyr hynny nad ydynt wedi cael eu cofrestru'r haf hwn eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster ym Mlwyddyn 10. Mae nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 sydd wedi cael eu cofrestru wedi cynyddu'n sylweddol hefyd (153%) o gymharu â'r llynedd, gyda mwy na 5,000 o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau'r cymhwyster yr haf hwn.

Gall ysgolion benderfynu pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau, ac nid oes un dull penodol sy'n gweithio i bob myfyriwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi astudio cynnwys y cymhwyster er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ennill eu gradd orau posibl.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r newidiadau hyn i batrymau cofrestru yn debygol o effeithio ar ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Saesneg cyffredinol terfynol Cymru yr haf hwn.

Er mwyn helpu i esbonio sut y bydd canlyniadau TGAU Saesneg Iaith eleni yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, bydd ein trosolwg o ganlyniadau'r haf yn canolbwyntio ar y rhai sy'n 16 oed, hynny yw, myfyrwyr Blwyddyn 11. Gyda'r holl newidiadau hyn, bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn yr haf hwn, ac mae ysgolion yn debygol o weld mwy o amrywiaeth yn eu canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn.

O ran TGAU Llenyddiaeth Saesneg, bydd llawer o fyfyrwyr wedi ennill eu graddau yn ystod haf 2017 ac ni fyddant yn cael eu cofrestru yr haf hwn. Mae natur y garfan wedi newid, a all olygu bod canlyniadau'r haf yn wahanol eleni o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Unwaith eto, bydd angen dehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf yn ofalus.

Bydd unrhyw gymariaethau a wnawn yn seiliedig ar ganlyniadau gorau myfyrwyr sy'n gorffen Blwyddyn 11 yr haf hwn. Mae hyn yn golygu, os enillodd myfyriwr radd well yn gynharach yn y cwrs, mai dyna'r radd y byddwn yn ei defnyddio wrth gymharu canlyniadau â chanlyniadau Blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym